

Cyflwyniad

# Cyflwyniad i refferendwm

---

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl a sefydliadau sydd am wybod beth yw refferendwm a'r rolau allweddol.

Cynnwys:

Beth yw refferendwm?

Y rheolau

Pwy sy'n gwneud beth mewn refferendwm?



## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hymdriniaeth o orfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol mewn modd sy'n effeithiol, cymesur a theg. Rydym wedi ymrwmo i roi dealltwriaeth glir o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor. Os nad ydych yn siŵr o sut mae'r rheolau hyn yn berthnasol i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein grym a chosbau ymchwilio, lle bo'n angenrheidiol a chymesur i wneud er mwyn bodloni ein nodau a'n hamcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allech chi neu'ch sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ymdriniaeth y Comisiwn o orfodi yn

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances>

# 2

## Beth yw refferendwm?

Refferendwm yw pleidlais uniongyrchol lle y gofynnir i etholaeth gyfan ateb cwestiwn ar gynnig penodol. Er enghraifft, ar 18 Medi 2014, gofynnwyd i bobl yr Alban bleidleisio mewn refferendwm ar b'un a ddylai'r Alban fod yn wlad annibynnol ai peidio. Os oes bwriad i gynnal refferendwm, caiff deddfwriaeth ei phasio yn cynnwys y cwestiwn a'r rheolau ar sut y caiff y refferendwm ei gynnal.

Mae mathau gwahanol o refferenda:

- refferenda a gynhelir o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (refferenda PPERA)
- refferenda a gynhelir o dan gyfraith arall, fel y refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban 2014
- refferenda llywodraeth leol. Er enghraifft, p'un a ddylech gael maer etholedig yn eich ardal ai peidio

Mae cyfreithiau, rheolau a rheoliadau gwahanol yn gymwys i'r mathau hyn o refferenda.

Nid ydym yn rheoleiddio refferenda llywodraeth leol. Os hoffech wybod mwy am refferenda llywodraeth leol, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol.

Yn y cyfnod cyn refferendwm, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn 'gyfnod y refferendwm'. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rheolau ar ymgyrchu, gwario a chyllid yn gymwys.

Rydym yn cyhoeddi amserlen yn dangos y dyddiadau a'r terfynau amser ar gyfer pob refferendwm.

Ar ôl i bleidlais y refferendwm gau, caiff y pleidleisiau eu cyfrif yn lleol. Yna caiff y canlyniadau lleol eu coladu a chaiff y canlyniad cyffredinol ei gyhoeddi.



Nid yw'r canllawiau hyn yn gymwys i refferenda llywodraeth leol gan nad ydym yn eu rheoleiddio.

# Y rheolau

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau. Mae'r rheolau hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o weithgarwch ymgyrchu.

## Pwy sy'n gwneud beth mewn refferendwm?

Mae gan bobl a sefydliadau rôl mewn refferenda, sef:

- pleidleiswyr
- ymgyrchwyr
- y Comisiwn Etholiadol
- y Prif Swyddog Cyfrif
- Swyddogion Cyfrif
- Swyddogion Cofrestru Etholiadol
- y Cyfryngau

### Pleidleiswyr

Mae pleidleiswyr cofrestredig yn bwrw eu pleidlais ar y diwrnod pleidleisio, neu cyn hynny os ydynt yn pleidleisio drwy'r post, sy'n penderfynu ar ganlyniad y refferendwm. Gofynnir i bleidleiswyr nodi eu dewis drwy farcio'r papur pleidleisio.

# 4

## Ymgyrchwyr

Bydd ymgyrchwyr yn hyrwyddo y naill ochr neu'r llall o'r ddadl. Gall unrhyw un wario hyd at £10,000 ar ymgyrchu yn ystod refferendwm. Os byddwch am wario mwy na £10,000 rhaid i chi gofrestru gyda ni. Dim ond rhai mathau o unigolion neu sefydliadau a all gofrestru fel ymgyrchwyr.

Ar ôl cofrestru, rhaid i ymgyrchwyr gydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Fel arfer bydd grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y ddwy ochr o'r ddadl. Mae gan y Comisiwn Etholiadol gyfrifoldeb am ddynodi ymgyrchwyr arweiniol ar gyfer pob ochr mewn refferendwm. Mae prawf statudol y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau i fod yn ymgyrchydd arweiniol.

## Y Comisiwn Etholiadol

Mewn refferenda rydym fel arfer yn gyfrifol am:

- roi sylwadau ar eiriad cwestiwn y refferendwm
- cofrestru ymgyrchwyr
- rheoleiddio gwariant ar ymgyrchu a rhoddion
- grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig
- adrodd ar ddull gweinyddu'r refferendwm
- talu grantiau statudol i grwpiau ymgyrchu arweiniol
- cynnal y refferendwm a sicrhau cywirdeb cyffredinol y canlyniad
- cyhoeddi ffurflenni rhoddion, benthyciadau a gwariant yr ymgyrchwyr cofrestredig ar ôl yr etholiad

## Y Prif Swyddog Cyfrif

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am gynnal y refferendwm a sicrhau cywirdeb y canlyniad cyffredinol. Mewn rhai refferenda, gall y Prif Swyddog Cyfrif benodi dirprwy, neu Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau.

## Swyddogion Cyfrif

Mae Swyddogion Cyfrif yn gweinyddu'r prosesau pleidleisio a chyfrif yn eu hardaloedd lleol. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys cyhoeddi papurau pleidleisio, rhedeg gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd yn eu hardal.

Mae gan Swyddog Cyfrif rôl debyg i Swyddog Canlyniadau mewn etholiad.

## Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Ym Mhrydain Fawr, penodir Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan awdurdodau lleol. Maent yn gyfrifol am y gofrestr etholiadol. Maent hefyd yn rheoli ceisiadau am bleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy (pleidleisio absennol) ac yn llunio rhestrau o bleidleiswyr absennol.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Prif Swyddog Etholiadol yn gyfrifol am gofrestru etholiadol.

## Y cyfryngau

Rôl y cyfryngau mewn refferendwm yw rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ar faterion y refferenda a sicrhau y creffir ar y broses a'r dadleuon ymgyrchu ac y cânt eu dadansoddi. Mae'r cyfryngau hefyd yn darparu fforwm ar gyfer ystod eang o safbwyntiau ar y refferendwm o bob rhan o gymdeithas.

# 6

## Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Cymru:** 0333 103 1929  
[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- **Lloegr:** 0333 103 1928  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- **Yr Alban:** 0333 103 1928  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- **Gogledd Iwerddon:** 0333 103 1928  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

Ewch i [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)